# 12fed Cyfarfod y Grŵp Ecosystemau Coetir
# Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth
# Dydd Mercher, 16 Ionawr 2013
# 10.30am– 3.00pm

Yn bresennol

Chris Tucker (CT) – Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Nigel Ajax-Lewis (NAL) – WWT
Celia Thomas (CTh)- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Linda Makepeace (LM) – Llywodraeth Cymru
Richard Jones (RJ) - CCGC
Arfon Williams (AW) - RSPB
Hilary Miller (HM) - CCGC
Chris Smith (CS) – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Carolyn Griffiths (CG) – Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Ysgrifenyddiaeth

-

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau

Bill Macdonald – Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Dave Lamacraft
Jim Latham – CCGC
Liz Halliwell – CCGC
Patrick Green – Comisiwn Coedwigaeth Cymru

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

Llai o Swyddogion Coed Cymru yn ymwneud â phlannu o'r newydd ac ati. Cyllideb Awdurdodau Lleol yn cael ei gwasgu a llai o arian yn cael ei roi i Coed Cymru. Does dim arian ar gael. Nid yw pob un o swyddogion Coed Cymru wedi'i hyfforddi i blannu coed o'r newydd. Mae swyddogion prosiect Glastir eraill.

1. Beth yw dosbarthiad daearyddol swyddogion prosiect?
2. Ble mae'r achosion y maen nhw'n ymwneud â nhw?

Mae'n anodd i swyddogion sy'n methu â chyflawni. Mae gan Coed Cymru brofiad o gyflawni mewn ardaloedd coetir llai ac o reolaeth ar gyfer cadwraeth. Efallai nad oes gan swyddogion prosiect eraill ddiddordeb yn y mathau hyn o safleoedd. Nid yw cynlluniau llai mor gost effeithiol i'r sector preifat.
Trafodaeth grŵp ynglŷn â chyllid coetir.

1. Rhan Coed Cymru?

CAM GWEITHREDU: Gofyn i David ailymgysylltu â'r grŵp.

Trafodwyd integreiddio rhywogaethau. Byddai gan gyfeillion rhywogaethau CCGC ddiddordeb yn y maes hwn ac mae'n bosibl bod ganddynt well cofnodion ar gyfer rhai rhywogaethau.

CAM GWEITHREDU: AW i hysbysu Stephen Bladwell ynglŷn â mynd i gyfarfod y grŵp arbenigwyr rhywogaethau.
Wedi gweithredu: CT wedi trafod gyda Stephen Bladwell ac yntau wedi codi integreiddio rhywogaethau Glastir yng nghyfarfod y grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau. Cynhelir cyfarfod penodol gyda'r rhai sydd â diddordeb er mwyn symud ymlaen.

Trafodaeth ar nodi bylchau mewn ymchwil a sut y gellid llenwi'r bylchau. Hefyd ar ddod o hyd i gyfleoedd ar gyfer prosiectau ymchwil.

CAM GWEITHREDU: HM i gysylltu â ? ynglŷn â phennu nodweddion tir pori mewn ardaloedd coediog.
Y diweddaraf: Cynhaliodd PBC gyfarfod i ymchwilwyr a chyfrannodd CT wybodaeth gan y grŵp.

## 3. Cynllun gweithredu a rhaglen waith y Grŵp Ecosystemau Coetir ar gyfer 2013/14

Dangosodd CT gynllun gweithredu ar daenlen fawr.

Sut i gyflawni ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol?

Pa ganllawiau a chyngor allwn ni eu rhoi er mwyn cyflawni'n lleol. Cynllun strategol Rhododendron, wiwerod llwyd, rhywogaethau â blaenoriaeth.

Cytunwyd y dylai'r grŵp fuddsoddi amser mewn gwaith ar Glastir a'r Cynllun Datblygu Gwledig. Rhoi offer i'r rheolwr tir i'w alluogi i gyflawni pethau eraill.

CAM GWEITHREDU: Dylanwadu ar i fyny - PAWB

Trafodwyd y Cynllun Datblygu Gwledig. Gall y Grŵp Ecosystemau Coetir fwydo i mewn i'r broses drwy Bill Macdonald.

Y dyddiad cau yw 23 Ebrill

CAM GWEITHREDU: Bydd y Grŵp yn ymateb i'r ymgynghoriad

Is-grŵp i gyfarfod a drafftio ymateb a'i gylchredeg i'r grŵp.

Yn eithaf agos i'r brig a chefnogi ag enghraifft.

GWIRFODDOLWYR i edrych ar hyn AW, CTh, LM, HM.

Bydd AW yn nodi i ba feysydd y mae angen ymateb ac yn gofyn i'r lleill am gwestiynau penodol.

Dylanwadu ar Glastir
Is-grŵp arall i edrych ar ganllawiau ar gyfer Glastir.
Dim ond un set o ganllawiau sydd ei hangen ar reoli cynefinoedd yn gyffredinol.

Mae risg wrth bennu isafswm o rywogaethau oherwydd mae gan wahanol rywogaethau (yn y set coetir) lefelau gwahanol iawn o amrywiaeth. (e.e. mae coetir Deri'r Ucheldir yn llai amrywiol na choetir collddail cymysg yr iseldir.)
Beth sy'n dderbyniol o ran rhywogaethau anfrodorol yn y canopi? Gall coed anfrodorol ddarparu'r amgylchiadau sydd eu hangen ar rywogaethau coetir. Dylid darparu canllawiau hyd at X %.
Mae angen i'r diffiniad o brysgwydd fod yn glir.

--
Wedi mynd drwy'r rhaglen waith.

Mae angen diweddaru a chyfeirio canllawiau ynddi.
Nodi ble byddai ehangu coetir yn briodol. Edrych lle i dargedu ehangu coetir a'r mathau o goetir.

Pethau eraill i roi canllawiau arnynt.

- Grŵp bach i drafod cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol mewn gweithdy
- Rhwydweithiau cynefinoedd
- Rheolaeth sylfaenol
- Gwybodaeth ynglŷn â beth sy'n digwydd yn y maes
- Rhannu gwybodaeth/arferion gorau
- Chris T i arwain yr is-grŵp; RJ, NAL
- Gellid sefydlu gweithdy mewn ardaloedd lle mae ymweliadau'n bosibl.

Mae gan rai cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol fforwm coetir.

CAM GWEITHREDU: CT i ysgrifennu rhaglen waith a'i dosbarthu.

Cysylltu â'r Cynllun Datblygu Gwledig ac ati gan edrych ar amserlenni er mwyn dylanwadu ar gynnydd drwy'r grŵp INNS ac ati.

Yn ôl WfW mae yna strategaeth Rhododendron. Y grŵp yn credu y gellid ei haddasu i rywogaethau ymwthiol eraill (Rhododendron, Jac y Neidiwr, Coed Llawrgeirios, Ceirw, Wiwerod Llwyd, Llus Eira, Geifr).

CAM GWEITHREDU: CT i siarad gyda David Thomas (Cadeirydd INNS) ynglŷn â sefydlu'r is-grŵp. Wedi'i wneud

Wiwerod Llwyd – Strategaeth wedi'i rhoi o'r neilltu am y tro. Mae gan Ymchwil Coedwigaeth lawer o ymchwil i Wiwerod Llwyd. Angen eglurhad ynglŷn ag effaith wiwerod.

CAM GWEITHREDU: Gofyn i Christine Edwards neu Kathryn Hewitt ddod i siarad am y Gronfa Ddata o Gamau Gweithredu ar Ganlyniad 21 a phrosiect N"K.

Trafodaeth ar ACA. Mae'r gronfa ddata'n berthnasol iawn i weithdai cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol.

CAM GWEITHREDU: Gofyn i Christine holi ynglŷn â data ACA a faint o gamau gweithredu sydd heb eu cytuno.

CAM GWEITHREDU: CT i ofyn i Kathryn ailbrosesu pan fydd gwrthdaro rhwng rheoli cynefinoedd a rheoli nodweddion ACA.

Trafodaeth ar Amrywiaeth Coed

CAM GWEITHREDU: CT i dacluso'r ddogfen a'i hanfon gyda'r cofnodion.

## 4. Targedau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth

Trafodaeth fer ar y Rhestr Coetiroedd Hynafol. Os bydd canllawiau neu gwestiwn yn codi ynglŷn â'r Rhestr Coetiroedd Hynafol y broses yw cysylltu â Dafydd Fryer ar 0300 068 0300

CAM GWEITHREDU: Papur ar y Rhestr Coetiroedd Hynafol i'w ddosbarthu i bawb.

Trafodaeth ar osod targedau ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd coetir.

CAM GWEITHREDU: CT i gael ffigurau ar gyfer cyrraedd targedau Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd

Trafod a oes angen targedau

CAM GWEITHREDU: CT i ymchwilio i oblygiadau targedau.

## 5. Coed ffawydd, eu hystod a'u dylanwad – Celia Thomas

Darparodd CTh wybodaeth am yr uchod.

Trafodaeth ar newid hinsawdd – a ddylem fod yn edrych ar rywogaethau newydd?

## 6. Rhywogaethau Targed Coedwigaeth Glastir – Chris Tucker

Trafodwyd yn gynharach

## 7. Adolygiad o Orchmynion Cadw Coed – Hilary Miller

Byddai HM yn hoffi gweld adolygiad o Orchmynion Cadw Coed gan grŵp gorchwyl a gorffen.

Mae 2 ddarn o ddeddfwriaeth yn mynd drwodd -

Bil Treftadaeth
Bil Cynllunio

Gallai'r ddau gynnig cyfle i fynd i'r afael â'r mater hwn.

CAM GWEITHREDU: HM i gysylltu â Terry O'keefe, Polisi Coedwigaeth Llywodraeth Cymru, i holi sut y mae pethau'n dod yn eu blaen.

CAM GWEITHREDU: Cefnogaeth gan y Grŵp Ecosystemau Coetir i'r Tîm Polisi Coedwigaeth os bydd yn mynd â hyn yn ei flaen

## 8. Unrhyw Fater Arall

CAM GWEITHREDU: CT i symud ymlaen â materion ar rywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop yn yr adolygiad o'r canllawiau

Bill – Mapiau cyfle Glastir – Creu Coetir

Mae Bill yn awyddus i gael cyfarwyddyd gan gyfeillion yn Llywodraeth Cymru ynglŷn â beth y mae angen ei wneud ynglŷn â'r polisi creu coetir.

Safleoedd SINC – Canllawiau SINC a thaflenni cynefin. Sylwadau i Laura drwy Chris.

YCHWANEGU dangosydd coetir hynafol at y ddogfen

## 9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - 8 Mai 2013, Tŷ Newton, Dinefwr, safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru